**Sesiwn 1999-2000 Rhif 30**

# PAPURAU BUSNES

## RHAN 2 – ADRAN H

## COFNOD O BLEIDLEISIAU A THRAFODION DYDD MERCHER, 10 TACHWEDD 1999

**Dechreuodd y sesiwn am 2pm.**

Gwnaed datganiad gan y Llywydd ar y weithdrefn bleidleisio ddiwygiedig.

**Ethol i'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal**

Cynnig bod y Cynulliad yn cyfnewid ar unwaith Jocelyn Davies (Plaid Cymru) am Gareth Jones (Plaid Cymru) ar y Pwyllgor Cyfle Cyfartal.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig; y canlyniad oedd:

O Blaid 43

Yn Erbyn 0

Ymatal 0

Cyfanswm 43

Etholwyd Gareth Jones.

**2.04pm**

**Cwestiynau i Rosemary Butler, Ysgrifennydd y Cynulliad dros Addysg a Phlant**

Gofynnwyd y 3 chwestiwn cyntaf (grwpiwyd cwestiwn 6 gyda chwestiwn 2 gan yr Ysgrifennydd Cynulliad).

**2.25pm**

**Cwestiynau i Christine Gwyther, Ysgrifennydd y Cynulliad dros Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig**

Gofynnwyd y 4 cwestiwn cyntaf.

**Pwynt o Drefn**

Codwyd pwynt o drefn gan Carwyn Jones o dan Reol Sefydlog 7.8(v) ar ôl i Kirsty Williams ddefnyddio'r gair "he" yn ei chwestiwn i'r Ysgrifennydd dros Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig.

**2.47pm**

**Datganiad gan yr Ysgrifennydd dros Ddatblygu Economaidd**

Gwnaed datganiad gan yr Ysgrifennydd dros Ddatblygu Economaidd ar Orsaf

Ber Ynys Môn.

**2.58pm**

**Rheoliadau Plaleiddiaid Cydgyfnerthedig**

Bod y Cynulliad, yn unol â Rheol Sefydlog 22.33 yn cymeradwyo fersiwn ddrafft Rheoliadau Plaleiddiaid (Lefelau Uchaf o Waddodion mewn Cnydau, Bwyd a Phorthiant) (Cymru a Lloegr) 2000 y gosodwyd copi ohoni yn y Swyddfa Gyflwyno a'i dosbarthu i'r Aelodau ddydd Gwener 5 Tachwedd 1999**.**

Cynhaliwyd pleidlais; y canlyniad oedd:

O Blaid 42

Yn Erbyn 0

Ymatal 0

Cyfanswm 42

Cymeradwywyd y rheoliadau drafft.

**3.23pm**

**Dadl ar y Gyllideb Ragarweiniol**

Bod y Cynulliad, yn unol â Rheol Sefydlog 19.2, yn nodi’r gyllideb ragarweiniol ddrafft ar gyfer y blynyddoedd ariannol 2000-01, 2001-2002 a 2002-03, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno Ddydd Iau, 4 Tachwedd gan yr Ysgrifennydd Cyllid, Edwina Hart.

**Dewiswyd y gwelliannau canlynol:**

**Gwelliant 1: Dafydd Wigley (Caernarfon)**

**Ar ddechrau’r llinell gyntaf, dileer "Bod y Cynulliad" ac ychwaneger y canlynol:**

ei bod yn ofid i’r Cynulliad nad yw’r gyllideb ddrafft yn gallu darparu arian ar gyfer rhai cynigion allweddol a argymhellwyd gan bwyllgorau’r Cynulliad ac eraill; yn nodi bod ymdrechion i adfywio Cymru yn cael eu rhwystro gan ddiffygion fformwla Barnett, polisïau llywodraeth y DU ar wariant cyhoeddus, cyfraddau llog a chronfeydd strwythurol Ewrop; yn cydnabod y byddai gweithredu’r egwyddor ychwanegedd a darparu digon o arian cyfatebol yn helpu i fynd i’r afael â’r anawsterau hyn ac mae’n galw ar y Prif Ysgrifennydd i gyflwyno sylwadau i lywodraeth y DU i’r perwyl hwn, ac

**Gwelliant 2: Peter Black (Gorllewin De Cymru) R**

**Ychwaneger at y diwedd:**

Dylai Pwyllgorau’r Cynulliad a’r Weithrediaeth, wrth roi ystyriaeth bellach i’r gyllideb ragarweiniol ddrafft, gofio bod angen lleihau maint dosbarthiadau plant 7-11 oed, lleihau maint y gwaith cynnal a chadw sy’n aros i’w wneud mewn ysgolion a lleihau amseroedd aros ar gyfer gwasanaethau iechyd.

**Gwelliant 3: Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru); R**

**Ar ôl y frawddeg sy’n gorffen "Edwina Hart", ychwaneger:**

"Fodd bynnag, mae’n ofid i’r Cynulliad hwn:

- y bydd gostyngiad o £4.7 mewn adnoddau ar gyfer Ymddiriedolaethau’r NHS a’r Awdurdodau Iechyd ar adeg pan fo’r cyrff hyn yn profi anawsterau ariannol difrifol;
- na fydd digon o arian yn cael ei neilltuo i helpu’r rhai hynny sy’n dechrau arni fel ffermwyr; ac,
- nad yw’r £15 miliwn a neilltuwyd o’r Gronfa *Ffordd i Ffyniant* sydd i’w ddefnyddio fel arian cyfatebol ar gyfer Amcan Un yn arian ychwanegol, ond yn hytrach yn arian sydd wedi’i dynnu o gronfa sy’n bodoli eisoes ac yn arian sydd eisoes wedi’i glustnodi."

**Gwelliant Gwelliant 4: Michael German (Dwyrain De Cymru) & Nick Bourne (CanolbarCanolbarth a Gorllewin Cymru)**

**Ychwaneger at y diwedd:**

Yn galw ar Lywodraeth y DU i neilltuo arian ychwanegol ac arian newydd ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru sydd uwchlaw'r dyraniad a ddarparwyd gan Fformwla Barnett i alluogi'r Cynulliad i ddenu'r holl arian Amcan Un sydd ar gael yn 2000-01 ac yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod.

Cynhaliwyd pleidlais; y canlyniad oedd:

**Gwelliant 1:**

O Blaid 30

Yn Erbyn 0

Ymatal 23

Cyfanswm 53

Cymeradwywyd y gwelliant.

**Gwelliant 2:**

O Blaid 30

Yn Erbyn 0

Ymatal 23

Cyfanswm 53

Cymeradwywyd y gwelliant.

**Gwelliant 3:**

O Blaid 24

Yn Erbyn 0

Ymatal 29

Cyfanswm 53

Cymeradwywyd y gwelliant.

**Gwelliant 4:**

O Blaid 30

Yn Erbyn 0

Ymatal 23

Cyfanswm 53

Cymeradwywyd y gwelliant.

**Y cynnig, fel y'i diwygiwyd:**

O Blaid 45

Yn Erbyn 8

Ymatal 0

Cyfanswm 53

Cymeradwywyd y cynnig, fel y'i diwygiwyd.

**Daeth y sesiwn i ben am 5.25pm**

************

**Bydd y Cynulliad yn cyfarfod yn llawn eto am 2.00pm ddydd Mawrth, 16 Tachwedd 1999**

**Deiseb a gyflwynwyd ar 10 Tachwedd 1999**

Deiseb a gyflwynwyd gan Gynghrair Cefn Gwlad; Cymdeithas Saethu a Chadwraeth Prydain (Cymru); Undeb Amaethwyr Cymru; Undeb Cenedlaethol y Ffermwyr (Cymru); a Chymdeithas y Tirfeddianwyr (Cymru).

**MAE'R DDEISEB A ATGYNHYRCHIR ISOD YN YR IAITH Y'I CYFLWYNWYD HI I'R CYNULLIAD.**

"Letter of Petition

The Countryside Alliance, Country Landowners Association (Wales), National Farmers Union, the Farmers Union of Wales and the British Association for Shooting and Conservation represent 1 million members. The Welsh supporters, many of whom have walked through the heart of Wales to a new Parliament, at the National

Assembly for Wales, come to express their increasing concerns that rural opinion is not being heard and individual liberty is threatened.

These rural issues encompass many interrelated areas such as agriculture, the right-to-roam, rural investment, social exclusion, unnecessary restrictive laws on shooting and the touch-paper for the demonstration today, the threat to hunting.

The people of Wales care deeply for their countryside and wish it to be a living heritage for future generations. We demand therefore, that of those elected to govern our "One Nation" do so with understanding and tolerance. We, who represent the Countryside, present ourselves on the doorstep of the Government in Wales, with a clear message also for the Government of Great Britain and Northern Ireland; that when faced with deciding on the priorities for rural Britain, you must:

"Choose Livelihood"."

**J W Lloyd**

**Clerc i’r Cynulliad**